**PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL**

| | |
|---|---|
| Dyddiad : | Mercher 30 Ionawr 2002 |
| Amser: | 9.30am |
| Lleoliad: | Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Teitl: Crynodeb o Ddarpariaethau'r Ddeddf Gwrth-derfysgaeth, Trosedd a Diogelwch**

**Pwrpas**

Mae'r Ddeddf hon yn ganlyniad adolygiad eang o ddeddfwriaeth bresennol y DU, ac y mae'n ychwanegu at y pwerau a gynhwysir eisoes yn Neddf Terfysgaeth 2000

Adolygir y Ddeddf o fewn ei dwy flynedd gyntaf gan bwyllgor o Gyfrin Gynghorwyr.

<u>Rhan 1 – Eiddo Terfysgwyr</u>

Darpariaethau i atal terfysgwyr rhag cael mynediad at eu harian:

- Cyflwynir gorchmynion monitro cyfrifon, sy'n galluogi'r heddlu i fynnu bod sefydliadau ariannol yn darparu gwybodaeth am gyfrifon am hyd at 90 diwrnod;
- Cryfheir y gofyniad presennol i adrodd gwybodaeth am gyllido terfysgaeth neu amheuaeth o hynny, gan ei gwneud yn drosedd i beidio ag adrodd os oes "sail resymol" i fod yn amheus.
- Rhoddir y pðer i'r asiantaethau sy'n gorfodi'r gyfraith i atafaelu arian terfysgwyr mewn unrhyw le yn y Deyrnas Unedig, yn ogystal â'r pðer i rewi asedau ar ddechrau ymchwiliad, yn hytrach na phan fo unigolyn ar fin cael ei gyhuddo.

<u>Rhan 2 – Gorchmynion Rhewi</u>

Mesurau sy'n caniatáu i'r DU weithredu'n gyflymach ac i dargedu'n well er mwyn rhewi asedau unigolion a grwpiau terfysgol.

<u>Rhan 3 – Datgelu Gwybodaeth</u>

Darpariaethau i ddileu'r rhwystrau presennol sy'n atal swyddogion tollau tramor a refeniw rhag darparu gwybodaeth i'r asiantaethau sy'n gorfodi'r gyfraith.

- Rhoddir pŵer cyffredinol i Dollau Tramor a Chartref Ei Mawrhydi ac i Gyllid y Wlad i ddatgelu gwybodaeth a ddelir ganddynt i ddibenion gorfodi'r gyfraith ac i'r gwasanaethau cudd-ymchwil er mwyn amddiffyn diogelwch y wlad.
- Eglurir a chysonir â'i gilydd nifer o'r pyrth presennol ar gyfer datgelu'r wybodaeth sydd gan awdurdodau cyhoeddus, i'r asiantaethau sy'n ymwneud ag ymchwiliadau ac achosion llys troseddol

Rhan 4 – Mewnfudo a Llochesu

Darpariaethau a fwriedir i atal terfysgwyr rhag camfanteisio ar y trefniadau mewnfudo a llochesu

- Caniateir cadw yn y ddalfa rhai y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ardystio sy'n fygythiad i ddiogelwch y wlad, ac a amheuir o fod yn derfysgwyr rhyngwladol, pan nad oes modd eu symud ar hyn o bryd. Bydd yr achosion, lle y cedwir rhai yn y ddalfa yn y modd hwn, yn cael eu cadw dan arolwg cyson gan y Comisiwn Apeliadau Mewnfudo Arbennig.
- Atelir ystyriaeth lawn o hawliadau lloches pan fo'r Ysgrifennydd Gwladol yn ardystio y byddai symud yr hawlwyr yn fuddiol er lles y cyhoedd (h.y. cyflymir y broses o hawlio lloches i rai a amheuir o derfysgaeth).
- Diddymir yr hawl i Adolygiad Barnwrol o benderfyniadau'r Comisiwn Apeliadau Mewnfudo Arbennig mewn perthynas â'r ddau fesur uchod.
- Caniateir cadw, am hyd at 10 mlynedd, olion bysedd a gymerir mewn achosion lloches a rhai achosion mewnfudo (er mwyn atal terfysgwyr rhag creu aml-hunaniaethau).

Mae'r pwerau i gadw rhai yn y ddalfa yn golygu dirymu'n rhannol Erthygl 5 y Confensiwn Ewropeaidd ar Iawnderau Dynol (sef yr hawl i ryddid a diogelwch). Caniateir dirymu yn y modd hwn yn ystod argyfwng cyhoeddus, ond rhaid cyfyngu'r dirymiad i'r hyn sy'n gwbl angenrheidiol o ganlyniad i'r argyfwng hwnnw. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol benodi unigolyn i adolygu ac adrodd ar weithrediad y pwerau i allgludo ac i gadw yn y ddalfa, o fewn 14 mis, ac adolygir y pwerau hyn gan y Senedd ar ôl 15 mis.

Rhan 5 – Hil a Chrefydd

Darpariaethau i estyn y troseddau gwaethygedig hiliol, sef ymosod, troseddau trefn gyhoeddus, difrod troseddol ac aflonyddu, trwy gynnwys yn ychwanegol ymosodiadau a waethygir trwy atgasedd crefyddol. Cynyddir y cosbau am droseddau casineb hiliol o 2 flynedd i 7 mlynedd.

Rhan 6 – Arfau Dinistr Torfol

Darpariaethau a fwriedir i gryfhau'r ddeddfwriaeth gyfredol sy'n rheoli arfau cemegol, niwclear a biolegol.

- Gwneir yn drosedd y weithred o gynorthwyo neu annog defnyddio neu ddatblygu mewn gwlad dramor unrhyw arfau cemegol, niwclear, biolegol neu radiolegol.
- Cyflwynir troseddau, mewn perthynas ag arfau biolegol a niwclear, sy'n cyfateb i'r troseddau yn Neddf Arfau Cemegol 1996, gan wneud y ddeddfwriaeth ar arfau biolegol a niwclear yn gytûn â'r ddeddfwriaeth bresennol ar arfau cemegol.
- Darperir o'r newydd hefyd i'r Tollau Tramor a Chartref erlyn am droseddau mewn perthynas ag arfau cemegol.

Rhan 7 – Rheolaeth ar Bathogenau a Thocsinau

Darpariaethau y bwriedir iddynt sicrhau nad yw terfysgwyr yn cael mynediad i adeiladau neu at sylweddau y gellid eu defnyddio i wneud niwed llethol (megis pathogenau sy'n beryglus o safbwynt iechyd dynol neu iechyd planhigion ac anifeiliaid).

- Gosodir rhwymedigaeth ar reolwyr labordai sy'n cadw stociau o afiechydon penodedig i roi gwybod pa bethau a gedwir, ac i gydymffurfio ag unrhyw ofynion diogelwch rhesymol a bennir gan yr heddlu ar ôl archwilio'r adeiladau.
- Gwneir yn ofynnol i reolwyr labordai, pan dderbyniant gais gan yr heddlu, i ddarparu rhestr i'r heddlu o enwau a manylion eraill am bawb sy'n cael mynediad yn rheolaidd at yr afiechydon peryglus a gedwir yn y labordai; darperir ar gyfer gwirio cefndir pobl o'r fath; a darperir i'r Ysgrifennydd Gwladol atal unrhyw unigolyn a enwir ganddo rhag cael mynediad at y sylweddau neu'r adeiladau hyn.

Rhan 8 – Diogelwch Niwclear Sifil

Darpariaethau i sicrhau amddiffyniad pellach i safleoedd, defnyddiau a thechnoleg niwclear rhag y risgiau o gyfeiriad terfysgwyr ac eraill.

- Estynnir awdurdodaeth Heddlu Awdurdod Ynni Atomig y DU, fel y gellir eu rhoi ar ddyletswydd ym mhob safle niwclear trwyddedig sifil.
- Darperir ar gyfer rheoliadau i atgyfnerthu a diweddaru'r drefn reoleiddio ar gyfer diogelwch yn y diwydiant niwclear sifil.
- Cryfheir y sancsiynau yn erbyn datgelu gwybodaeth sensitif gan unigolion ynglþn â diogelwch safleoedd niwclear, defnyddiau niwclear a thechnoleg niwclear y byddai ei lledaenu'n fater sensitif.

Rhan 9 – Diogelwch Hedfan

Darpariaethau i wella'r modd y gorfodir gofynion diogelwch hedfan, ac i wella gallu'r heddlu i ymdrin â sefyllfaoedd bygythiol mewn meysydd awyr ac ar awyrennau. Mae'n cynnwys pwerau i symud unigolion diawdurdod allan o'r Parthau Cyfyngedig mewn Meysydd Awyr ac oddi ar awyrennau.

Rhan 10 – Pwerau'r Heddlu

- Caniateir i'r heddlu a'r gwasanaethau tollau fynnu bod unrhyw eitem, megis gorchudd dros yr wyneb neu fenig, yn cael ei diosg os credant ei bod yn cael ei gwisgo yn gyfan gwbl neu'n bennaf i'r diben o guddio hunaniaeth y gwisgwr.
- Caniateir i Heddlu Trafnidiaeth Prydain weithredu tu allan i'w hawdurdodaeth reilffyrdd pan ofynnir am eu cymorth gan heddluoedd eraill. Rhoddir i swyddogion Heddlu Trafnidiaeth Prydain hefyd rhai o'r pwerau penodol sydd yn Neddf Terfysgaeth 2000, a phwerau i ymuno mewn cytundebau â heddluoedd eraill er mwyn cynorthwyo'i gilydd.
- Yn yr un modd caniateir i Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn weithredu tu allan i dir y Weinyddiaeth Amddiffyn pan ofynnir iddynt wneud hynny gan heddluoedd eraill.

Rhan 11 – Cadw Data Cyfathrebu

Darpariaethau sy'n caniatáu i ddarparwyr gwasanaethau cyfathrebu gadw data am gyfathrebiadau eu cwsmeriaid, er mwyn i'r asiantaethau sy'n gorfodi'r gyfraith gael mynediad at y data ac i ddibenion diogelwch y wlad (e.e. manylion tanysgrifwyr, biliau eitemedig – ond nid cynnwys y cyfathrebiadau o'r fath, megis yr hyn a ddywedwyd ar y teleffon neu mewn neges e-bost).

Darperir ar gyfer paratoi cod ymarfer gwirfoddol, trwy ymgynghori o fewn y diwydiant cyfathrebu (gyda phðer wrth gefn i adolygu'r trefniadau hyn ac i roi cyfarwyddiadau pe bai angen).

Rhan 12 – Llwgrwobrwyo a Llygru

Darpariaethau sy'n cryfhau'r gyfraith ar lygru rhyngwladol, gan bennu'n ddiamwys bod cyfraith llwgrwobrwyo'n berthnasol i weithredoedd sy'n cynnwys swyddogion cyhoeddus, Gweinidogion, Aelodau Seneddol a barnwyr mewn gwledydd tramor. Ymgymerir hefyd ag awdurdodaeth dros droseddau llwgrwobrwyo a gyflawnir gan ddinasyddion y DU a chwmnïau'r DU mewn gwledydd tramor.

Rhan 13 – Amrywiol

- Cymal sy'n galluogi gweithredu, yn ddiymdroi trwy is-ddeddfwriaeth, mesurau'r UE ynglþn â chydweithredu ar faterion cyfiawnder a materion cartref. (Enghreifftiau o hyn yw'r mesurau a gytunwyd gan arweinwyr yr UE yn eu huwchgynhadledd yn dilyn yr ymosodiadau yn UDA; cynlluniau ar gyfer timau ymchwilio ar y cyd, symleiddio'r gwaith o atafaelu asedau terfysgwyr trwy Ewrop, a chyflymu'r trefniadau ar gyfer estraddodi rhwng yr aelod-wladwriaethau.)
- Gwneir defnyddio sylweddau niweidiol i ddibenion terfysgaeth yn drosedd (am y tro cyntaf, mae hyn yn cynnwys defnyddio arf biolegol).
- Crëir y drosedd newydd o ffugio ymosodiad gyda sylweddau yr honnir eu bod yn niweidiol – e.e. anthracs, y frech wen, asidau ac afiechydon neu sylweddau tebyg.
- Estynnir pwerau Pencadlys Cyfathrebu'r Llywodraeth (GCHQ) gan ganiatáu gwell hyblygrwydd i

gasglu cudd-wybodaeth tu allan i ynysoedd Prydain.

- Ailgyflwynir y drosedd o fethiant cyffredinol i ddatgelu gwybodaeth am derfysgaeth, a gynhwyswyd yn y gorffennol yn y Ddeddf Atal Terfysgaeth mewn perthynas â Gogledd Iwerddon. Mae'r ddarpariaeth newydd yn estyn y ddarpariaeth flaenorol i gwmpasu terfysgaeth ddomestig a rhyngwladol.
- Darperir pwerau ychwanegol i fynnu bod cludwyr yn casglu ac yn darparu gwybodaeth i'r asiantaethau gorfodi, am deithwyr ac am nwyddau; a gellir rhannu'r wybodaeth honno wedyn rhwng yr asiantaethau.